
Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



# Yn y Llys:
## Bod yn ddiffynnydd mewn Llys Ynadon

# Yn y Llys: Bod yn Ddiffynnydd mewn Llys Ynadon

**Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i ddeall beth fydd yn digwydd os byddwch yn cael eich cyhuddo o drosedd ac yn gorfod mynd i lys ynadon.**




Mae pob achos troseddol yn cychwyn mewn llys ynadon.

Mewn llys ynadon, gall ddau neu dri ynad neu Farnwr Rhanbarth wrando eich achos.

Nid cyfreithwyr yw ynadon. Maent yn cael eu cefnogi gan Gynghorydd Cyfreithiol sydd wedi'i hyfforddi yn y gyfraith.

Mae Barnwyr Rhanbarth wedi'u hyfforddi yn y gyfraith. Gall Barnwr Rhanbarth wrando eich achos yn lle ynadon.



**Beth fydd yn digwydd mewn gwrandawiad?**

Bydd eich achos yn cael ei alw a byddwch yn mynd i'r ystafell llys. Efallai y bydd rhaid ichi eistedd yn y doc.

Cynhelir gwrandawiad i benderfynu a fydd rhaid ichi fod yn destun treial.

Yn y gwrandawiad cyntaf:

- Dywedir wrthych pa drosedd rydych wedi eich cyhuddo o'i gyflawni;
- Gofynnir ichi ddweud eich enw,
- Gofynnir ichi ddweud a ydych yn euog ynteu'n ddieuog. 'Ple' yw'r enw am hynny.

Byddwch ond yn cael eich rhoi ar dreial os ydych yn dweud eich bod yn ddieuog a heb gyflawni'r drosedd. Os byddwch yn cael treial, bydd y llys yn dweud wrthych beth fyddwch angen ei wneud i baratoi ar ei gyfer.

Gellir eich anfon i Lys y Goron ar gyfer eich treial neu'ch dedfryd. Gall hyn ddigwydd os oedd y drosedd yn un difrifol.

Efallai yr hoffech gael twrnai (cyfreithiwr neu fargyfreithiwr) cyn eich treial:

Gallwch chwilio am gyfreithiwr yn:
www.solicitors.lawsociety.org.uk/

Gallwch chwilio am fargyfreithiwr yn:
www.directaccessportal.co.uk

**Beth fydd yn digwydd mewn treial?**

Bydd yr erlynydd yn dweud eich bod wedi cyflawni’r drosedd.

Bydd yr erlynydd yn dweud pam eich bod wedi’ch cyhuddo o’r drosedd.



Efallai y bydd tystion yn cael eu holi ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Byddwch hefyd yn cael cyfle i roi tystiolaeth a dweud eich dweud am yr hyn a ddigwyddodd.

Bydd yr ynadon neu’r Barnwr Rhanbarth yn gwrando ar y ddwy ochr. Byddant yn penderfynu a ydych yn euog ynteu’n ddieuog. Gelwir hynny yn ‘Rheithfarn’.

---

**Sut ddylwn i ymddwyn yn y llys?**

Mae mynd i’r llys yn fater difrifol. Dylech ymddwyn yn barchus tuag at bawb.



Gofynnwch gwestiynau os nad ydych yn deall beth sy’n digwydd. Codwch eich llaw yn ddistaw i ddangos fod arnoch eisiau siarad.

Weithiau mae’n anodd clywed pan fyddwch yn y doc. Dywedwch wrth rywun os nad ydych yn gallu clywed. Pan fyddwch yn siarad gyda barnwr rhanbarth neu ynad dylech godi ar eich traed a’u galw’n ‘Syr’ neu ‘Madam’.




Fel arfer, caniateir i’r wasg a’r cyhoedd fod yn y llys. Peidiwch â siarad gyda’ch teulu na’ch ffrindiau pan fyddwch yn y llys.

Diffoddwch eich ffôn neu diffoddwch y sain ar y ffôn. Peidiwch â’i ddefnyddio.

---

**Eich Ple**

Os ydych am ddweud eich bod yn euog, dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd.



Efallai y byddwch yn cael llai o ddedfryd os byddwch yn pledio’n euog. Gorau po gyntaf y dywedwch wrth y llys eich bod am bledio’n euog gan y bydd modd lleihau rhagor ar y gosb felly.

Mae’r uchod er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn eich annog i bledio’n euog os nad ydych yn euog o’r drosedd. Ceisiwch gyngor cyfreithiol.

## Beth yw dedfryd?



Dedfryd yw'r gosb y byddwch yn ei chael os y'ch ceir yn euog neu os byddwch yn pledio'n euog.

Gall eich dedfryd fod yn ddirwy, yn ddedfryd gymunedol, yn waharddiad rhag gyrru, yn ddedfryd o garchar neu'n rhywbeth arall.

Gallwch gael dedfryd ohiriedig. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid ichi fynd i'r carchar oni bai eich bod yn cyflawni trosedd arall. Efallai bydd rhaid ichi wneud gwaith di-dâl, neu fynd i gyfarfodydd gyda swyddog prawf. Gelwir y rhain yn 'gofynion.' Os na fyddwch yn dilyn y gofynion gallwch gael eich cosbi, a gallwch gael eich anfon i'r carchar.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dedfrydau am wahanol droseddau yma:

www.sentencingcouncil.org.uk



Bydd barnwr neu ynad yn ystyried llawer o bethau wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi ichi. Er enghraifft, os oes gennych unrhyw euogfarnau eraill, efallai y bydd eich cosb yn llymach.

Ceir rhagor o wybodaeth yma:

www.gov.uk/how-sentences-are-worked-out

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael dedfryd o garchar?



Os byddwch yn cael dedfryd o garchar yna bydd rhaid ichi fynd i'r carchar ar unwaith o'r llys.

Efallai ni fyddwch yn gallu siarad gyda'ch teulu na'ch ffrindiau. Gall eich ffrindiau neu eich teulu wneud trefniadau i ddod i'ch gweld pan fyddwch yn y carchar.

Bydd y barnwr neu ynad yn dweud wrthych pa mor hir y byddwch yn y carchar. Os nad ydych yn clywed neu os nad ydych yn deall unrhyw beth, dylech ofyn i'r cynghorydd cyfreithiol, ynad neu eich cyfreithiwr i esbonio unwaith eto.

## Eich cofnod troseddol



Os y’ch ceir yn euog, mae’n debyg y bydd gennych gofnod troseddol, hyd yn oed os ydych yn meddwl nad oedd y drosedd yn ddifrifol.


Gall hyn gael cryn effaith ar eich bywyd.

Efallai y bydd rhaid ichi ddweud wrth eich cyflogwr, neu ddatgelu’r euogfarn pan fyddwch yn gwneud cais am swydd.

Efallai y bydd yn eich atal rhag teithio i rai gwledydd ar gyfer gwaith neu i fynd ar wyliau.

Ceisiwch gyngor cyfreithiol ynglŷn â’r hyn y mae’n rhaid ichi ei ddatgelu.

## Apeliadau




Gall pobl a gafwyd yn euog o drosedd mewn llys ynadon apelio i Lys y Goron os ydynt yn credu fod y rheithfarn neu’r ddedfryd yn anghywir.

Mae’r ffurflen apelio ar gael yma:

https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/criminal/acc003-eng.pdf

NEU Gallwch ofyn i staff y llys am gopi o’r ffurflen apelio.



Os byddwch yn cael dedfryd o garchar, gallwch ofyn am gymorth gyda’r broses NEU gallwch gael gwybodaeth ar-lein yma: https://www.gov.uk/appeal-against-sentence-conviction

Gwnewch hyn cyn gynted ag y gallwch. Mae yna derfyn amser o 21 diwrnod ar gyfer gwneud cais am apêl.



Os bydd gennych ragor o gwestiynau, siaradwch â’r cyfreithiwr ar ddyletswydd neu staff y llys.